***Statws*** *This is the original version (as it was originally enacted). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

# Deddf Seilwaith (Cymru) 2024

**2024 dsc 3**

## RHAN 7

GORFODI

*Cydymffurfio â hysbysiadau datblygiad anawdurdodedig*

### 114 Gorchymyn i ganiatáu camau sy'n ofynnol gan hysbysiad datblygiad anawdurdodedig

(1) Caiff perchennog tir wneud cais drwy gŵyn i lys ynadon am orchymyn sy'n ei gwneud yn ofynnol i berson arall a chanddo fuddiant yn y tir ganiatáu i'r perchennog gymryd camau sy'n ofynnol gan hysbysiad datblygiad anawdurdodedig.

(2) Caiff y llys wneud gorchymyn o'r fath os yw wedi ei fodloni bod y person arall yn atal y perchennog rhag cymryd camau sy'n ofynnol gan yr hysbysiad.

### 115 Pŵer i fynd ar dir a chymryd camau sy'n ofynnol gan hysbysiad datblygiad anawdurdodedig

(1) Os yw'r cyfnod y mae hysbysiad datblygiad anawdurdodedig yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw gam gael ei gymryd o'i fewn wedi dod i ben ac nad yw'r cam wedi ei gymryd, caiff yr awdurdod cynllunio a ddyroddodd yr hysbysiad, neu Weinidogion Cymru, os mai hwy a ddyroddodd yr hysbysiad, ar unrhyw adeg resymol, fynd ar y tir y mae'r hysbysiad yn ymwneud ag ef a chymryd y cam.

(2) Mae person sy'n rhwystro'n fwriadol berson sy'n arfer pŵer o dan is-adran (1) yn cyflawni trosedd.

(3) Mae person sy'n euog o drosedd o dan is-adran (2) yn agored ar euogfarn ddiannod i ddirwy.

***Statws*** *This is the original version (as it was originally enacted). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

### 116 Adennill costau cydymffurfio â hysbysiad datblygiad anawdurdodedig

(1) Pan fo awdurdod cynllunio perthnasol neu Weinidogion Cymru yn arfer y pŵer o dan adran 115(1) i fynd ar dir a chymryd cam sy'n ofynnol gan hysbysiad datblygiad anawdurdodedig, caiff yr awdurdod cynllunio neu Weinidogion Cymru (yn ôl y digwydd) adennill oddi wrth berson sydd ar y pryd yn berchennog ar y tir y costau y mae'n mynd iddynt yn rhesymol wrth wneud hynny.

(2) Os yw awdurdod cynllunio perthnasol neu Weinidogion Cymru yn ceisio adennill costau o dan is-adran (1) oddi wrth berchennog ar dir—

(a) y mae ganddo hawlogaeth i gael crogrent y tir dim ond fel asiant neu ymddiriedolwr ar gyfer person arall (y "penadur"), a

(b) nad oes ganddo, ac nad oedd ganddo ar unrhyw adeg ers y diwrnod pan fynnwyd bod y costau yn cael eu talu, ddigon o arian ar ran y penadur i dalu'r costau yn llawn,

mae atebolrwydd yr asiant neu'r ymddiriedolwr wedi ei gyfyngu i gyfanswm yr arian y mae'r asiant neu'r ymddiriedolwr wedi ei gael ar ran y penadur ers y diwrnod hwnnw.

(3) Os yw is-adran (2) yn atal awdurdod cynllunio perthnasol neu Weinidogion Cymru rhag adennill y cyfan o'i gostau neu eu costau oddi wrth asiant neu ymddiriedolwr, caiff yr awdurdod cynllunio perthnasol neu Weinidogion Cymru adennill y costau oddi wrth y penadur, neu'n rhannol oddi wrth y penadur ac yn rhannol oddi wrth yr asiant neu'r ymddiriedolwr.

(4) Pan fo hysbysiad datblygiad anawdurdodedig wedi ei gyflwyno mewn cysylltiad â datblygiad, mae—

(a) costau y mae perchennog neu feddiannydd y tir yn mynd iddynt at ddiben cydymffurfio â'r hysbysiad, a

(b) symiau y mae perchennog y tir yn eu talu o dan is-adran (1) mewn cysylltiad â chostau y mae'r awdurdod cynllunio perthnasol, neu Weinidogion Cymru, yn mynd iddynt wrth gymryd camau sy'n ofynnol ganddynt,

i'w trin fel pe aed iddynt neu pe baent wedi eu talu at ddefnydd ac ar gais y person a ddyfarnwyd yn euog o'r drosedd o dan adran 103 neu 104.

(5) Mae'r costau y gellir eu hadennill gan awdurdod cynllunio perthnasol neu Weinidogion Cymru o dan is-adran (1), hyd nes iddynt gael eu hadennill, yn bridiant ar y tir y mae'r hysbysiad datblygiad anawdurdodedig yn ymwneud ag ef.

(6) Mae'r pridiant yn cymryd effaith fel pridiant tir lleol ar ddechrau'r diwrnod ar ôl y diwrnod y mae'r awdurdod cynllunio neu Weinidogion Cymru yn cwblhau'r cam y mae'r costau'n ymwneud ag ef.

(7) Mae is-adran (8) yn gymwys—

(a) pan fo awdurdod cynllunio perthnasol neu Weinidogion Cymru yn symud ymaith ddeunyddiau o dir wrth gymryd camau sy'n ofynnol gan hysbysiad datblygiad anawdurdodedig, a

(b) pan na fo perchennog y deunyddiau, o fewn 3 diwrnod ar ôl y diwrnod y cânt eu symud ymaith, yn hawlio'r deunyddiau ac yn mynd â hwy i ffwrdd.

(8) Mewn perthynas â'r awdurdod cynllunio perthnasol neu Weinidogion Cymru—

(a) caiff werthu neu cânt werthu'r deunyddiau, a

(b) os gwneir hynny, rhaid iddo neu iddynt dalu'r enillion i'r person a oedd yn berchen ar y deunyddiau, ar ôl didynnu unrhyw gostau y gall yr awdurdod neu Weinidogion Cymru eu hadennill oddi wrth y person.

***Statws** This is the original version (as it was originally enacted). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

(9) Ni chaniateir adennill costau o dan yr adran hon oddi wrth y Goron.